

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 8 IONAWR 2021

Yn Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)
bressenol: Cynghorwyr Ford a/ac Goddard

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

5 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - CHILLI FLAMES, HEOL EGLWYS FAIR

Ymgeiswyr: Mr Tahir Nadeem (TN Ventures Ltd) a gynrychiolwyd gan
Yr Athro Roy Light (Siambrau Sant Ioan)

Awdurdodau Cyfrifol: Tony Bowley, Swyddog Trwyddedu, Heddlu De Cymru
Jay Sampson, Swyddog Trwyddedu, Gwasanaethau
Rheoliadol a Rennir.

Derbyniwyd cais am Drwydded Safle gan TN Ventures Limited mewn perthynas â
Chilli Flames, 95 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1DX.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddedadwy:

(i) darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos (dan do)

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

"Sefydliad bwyd poeth tecawê a bwyta yn y sefydliad"

(3) Oni bai y nodir fel arall, gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau
canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol:

Ddydd Llun i ddydd Sadwrn: 11:30 i 04:00

Dydd Sul: 12:00 i 04:00

(4) Cynnal gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

a) Darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos (dan do):

Dydd Llun i Ddydd Sul 23:00 i 04:00

Sylwadau'r Ymgeisydd

Esboniodd yr Athro Light fod y cais ar gyfer lluniaeth hwyr y nos am yr oriau rhwng
23:00 a 04:00. Nododd fod sylwadau wedi bod gan Heddlu De Cymru a'r Awdurdod
Trwyddedu, ond dim sylwadau gan breswylwyr, busnesau nac awdurdodau cyfrifol
eraill. Roedd y ddwy gynrychiolaeth a dderbyniwyd wedi'u seilio ar y ffaith bod y
safle yn yr Ardal Effaith Gronnol. Ychwanegodd fod y safle wedi dal trwydded o'r
blaen ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy eraill o 2006-2016. Ychwanegodd
mai'r ymgeisydd oedd cyfarwyddwr a rheolwr y safle, gyda phrofiad yn y busnes

manwerthu ffasiwn. Mae gan yr ymgeisydd brofiad gyda'r safle hwn ers mis Chwefror 2018.

Cyfeiriodd yr Athro Light at y cynllun safle a nododd mai'r llawr gwaelod oedd ardal y bwyty gyda 50 sedd a thoiled a bod yr islawr ar gyfer storio. Ni chafwyd unrhyw gwynion na digwyddiadau ar y safle, ond gan ei fod o fewn yr Ardal Effaith Gronnol roedd rhagdybiaeth wrthbrofi i wrthod y cais ac mae'n rhaid i'r ymgeisydd brofi bod y cais yn eithriadol. Ychwanegodd nad oedd y Polisi Effaith Gronnol yn absoliwt ac y dylid ystyried pob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun; mater i'r ymgeisydd oedd perswadio'r is-bwyllgor ei bod yn annhebygol o ychwanegu at unrhyw effaith negyddol yn yr Ardal Effaith Gronnol.

Esboniodd yr Athro Light, pan gymerwyd yr eiddo drosodd gan yr ymgeisydd ym mis Chwefror 2018, nad oedd yr ymgeisydd yn sylweddoli bod angen trwydded i werthu bwyd poeth ar ôl 11pm; bu'n masnachu am 18 mis tan 3 neu 4am heb drwydded, ond heb unrhyw broblemau yn y safle. Roedd yr heddlu wedi ymweld â'r safle ym mis Tachwedd 2019 i ofyn am gael gweld lluniau teledu cylch cyfyng i gynorthwyo gyda digwyddiad mewn man arall a daeth yn amlwg nad oedd trwydded ar waith.

Esboniodd yr Athro Light hefyd fod yr ymgeisydd hefyd wedi gwneud cais am 8 Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro tan 4am dros y 2 flynedd ddiwethaf, heb unrhyw broblemau a heb danseilio'r amcanion trwyddedu.

Roedd yr Athro Light o'r farn y gellir gwella ardaloedd drwy gyflwyno safleoedd sy'n wahanol i sefydliadau yfed fertigol, nid bwyty oedd yr ymgeisydd hwn yn gweithredu ond roedd yn safon uwchlaw'r bwyd parod tecawê arferol gan fod y cwsmer yn archebu bwyd a'i fod wedi'i baratoi'n ffres, gydag opsiynau iach ar gael.

Eglurodd yr Athro Light fod y busnes wedi symud i hen safle'r Fantasy Lounge, a oedd yn gwerthu alcohol, felly mae'r safle hwn i bob pwrpas wedi lleihau swm yr alcohol a werthir yn yr Ardal Effaith Gronnol.

Ychwanegodd yr Athro Light fod y Polisi Effaith Gronnol wedi'i anelu'n bennaf at leoliadau mwy sy'n cau ar yr un pryd fel bod nifer fawr o bobl ar y stryd ar yr un pryd; roedd amseroedd cau fesul cam ar gyfer safleoedd lluniaeth hwyr y nos. Mae safleoedd bwyd eisoes yn yr ardal felly byddai cael un ychwanegol yn cynnig mwy o ddewis i bobl a byddai'n helpu i wasgaru pobl rhyngddynt.

Roedd yr ymgeisydd wedi cytuno ar yr amodau a gyflwynwyd gan Heddlu De Cymru o ran teledu cylch cyfyng, staff drysau gyda chamerâu corff, ni fyddai man bwyta allanol, byddai ganddynt lyfr digwyddiadau; ni fyddai mynediad i bobl dan 16 oed ar ôl 23:00; byddai arwydd wrth y til yn manylu ar hyn.

Gofynnodd Mr Bowley beth sy'n gwneud y cais yn eithriadol a dywedodd yr Athro Light y bu bwlch o flwyddyn rhwng trwyddedau ar y safle ac mewn gwirionedd gellid bod wedi trosglwyddo'r drwydded a fyddai wedi galluogi gwerthu alcohol; roedd y cais hwn yn gofyn am lai na hynny ac am oriau llai na'r drwydded flaenorol.

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Dywedodd Mr Bowley fod Heddlu De Cymru yn gwrthwynebu amcanion trwyddedu Trosedd ac Anhrefn, Diogelwch y Cyhoedd ac Amddiffyn Plant rhag Niwed; nododd fod y cais blaenorol wedi'i wrthod ac na allai weld llawer o wahaniaethau gyda'r cais

hwn. Nododd fod yr amodau a gynigiwyd yn debyg iawn i'r rhai yr oedd Heddlu De Cymru wedi'u cynnig o'r blaen.

Roedd Mr Bowley o dan yr argraff bod y Fantasy Lounge wedi ildio'r drwydded flaenorol ar y ddealltwriaeth y byddent yn cael yr un drwydded mewn safle cyfagos.

Nododd Mr Bowley fod y dogfennau a gyflwynwyd yn debyg iawn i'r hyn a gyflwynwyd ar y cais blaenorol, ond tynnodd sylw'r Aelodau at yr ystadegau troseddu y cofnodwyd 130 o ddigwyddiadau/troseddau ar Heol Eglwys Fair yn unig, ymosodi a churo cyffredin yn bennaf, lladrata, meddw ac afreolus ac ymosodiadau rhywiol; gyda dim ond 13 o ddigwyddiadau dwyn o siopau wedi'u cofnodi yn ystod y dydd. Ychwanegodd, yn ystod y pandemig pan ganiatawyd i'r safle agor tan 10pm, bod y rhan fwyaf o'r digwyddiadau a gofnodwyd wedi digwydd y tu allan i safle lluniaeth hwyr y nos, roedd yn rhaid i'r heddlu gael eu danfon i Heol Eglwys Fair a Stryd Caroline ac roedd yr awdurdod lleol wedi gorfod cau safle.

Mewn perthynas â Hysbysiad Digwyddiadau Dros Dro, eglurodd Mr Bowley nad oedd yr Heddlu erioed wedi llwyddo i wrthwynebu'r rhain mewn perthynas â'r Polisi Effaith Gronnol.

Gofynnodd yr Aelodau mewn perthynas â chamerau corff, a fyddai'r Heddlu am gael un ar bob aelod o staff drws neu un camera'n unig; dywedodd Mr Bowley y byddent yn hapus gydag un camera.

Cyfeiriodd yr Athro Light at 'droseddau a gofnodwyd' a nododd na fyddai'r Heddlu wedi gweld pob un o'r rhain gan fod llawer yn cael eu hadrodd ar ôl y digwyddiad. Ychwanegodd y byddai'r holl ddigwyddiadau hyn wedi cael eu rhagdybio i fod yn gysylltiedig ag alcohol oherwydd yr adeg o'r nos y digwyddodd, roedd Mr Bowley yn cytuno â'r datganiadau hyn.

Nododd yr Athro Light nad oedd y papurau ar gyfer y cyfarfod yn cynnwys y Polisi Trwyddedu ac er y byddai aelodau'r pwyllgor yn ymwybodol ohono, mae'n rhoi'r ymgeisydd o dan anfantais. Cytunodd y Cadeirydd y byddent yn ystyried ei gynnwys yn y papurau yn y dyfodol.

Cyfeiriodd yr Athro Light at e-bost a dderbyniwyd gan yr awdurdod trwyddedu yn nodi bod trwydded y Fantasy Lounge wedi'i dileu drwy amrywiad a bod y llawr i fyny'r grisiau yn dal i gael eu trwyddedu. Cafwyd trafodaeth ynghylch lle mae'r Fantasy Lounge wedi'i lleoli ar hyn o bryd a chadarnhaodd swyddogion ei bod yn dal i weithredu uwchben Chilli Flames a'i bod wedi'i thrwyddedu. Dywedodd yr Athro Light fod hyn yn bwysig i'r cais gan fod y cais yn gofyn am lai na'r drwydded flaenorol.

Cyfeiriodd Mr Sampson at Bennod 8 y polisi ac at y ffaith bod y safle yn y categori Coch; eglurodd fod rhagdybiaeth wrthbrofi y byddai'r cais yn cael ei wrthod oni bai y gall yr ymgeisydd argyhoeddi'r is-bwyllgor y gall oresgyn y rhagdybiaeth wrthbrofi a hyrwyddo'r amcanion trwydded.

I grynhoi

Dywedodd Mr Bowley fod y cais ar gyfer safle tecawê bwyd parod yn yr Ardal Effaith Gronnol; nod y polisi yw cyfyngu ar nifer y rhain. Roedd o'r farn nad oedd y cais yn eithriadol. Roedd o'r farn bod adeiladau lluniaeth hwyr y nos yn achosi i bobl aros

yng nghanol y ddinas yn hirach ac mae tystiolaeth yn dangos y mwyaf o safleoedd sydd ar gael, y mwyaf mae pobl yn aros, yn hytrach na'u bod yn gwasgaru rhwng mwy o safleoedd. Dywedodd Mr Bowley fod y cais hwn yr un fath â'r cais diwethaf a wrthodwyd ar sail gadarn.

Cyfeiriodd Mr Sampson eto at y ffaith bod y safle yn y categori Coch; eglurodd fod rhagdybiaeth wrthbrofadwy y byddai'r cais yn cael ei wrthod oni bai y gall yr ymgeisydd argyhoeddi'r is-bwyllgor y gall oresgyn y rhagdybiaeth wrthbrofadwy a hyrwyddo'r amcanion trwydded.

Ailadroddodd yr Athro Light y dylid edrych ar bob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun a bod y cais hwn yn cynnwys defnyddio camerâu corff. Ychwanegodd fod y cais yn eithriadol gan fod y safle wedi gweithredu am 18 mis heb unrhyw broblemau ac felly'n annhebygol o ychwanegu'n negyddol at yr effaith gronol yn yr ardal.

Ychwanegodd yr Athro Light y bu 8 digwyddiad Hysbysiad Digwyddiadau Dros Dro tan 4am heb unrhyw broblem; roedd y safle'n safle o ansawdd gyda bwyd cyflym safon uwch, a heb drwydded alcohol ar y llawr gwaelod, byddai'n fater o enillion net i'r ardal. Croesawyd yr amodau gan yr ymgeisydd a gofynnodd i'r is-bwyllgor ystyried y cais eithriadol gan y byddai'n annhebygol o ychwanegu at yr effaith gronol negyddol ac i dderbyn y cais gyda'r amodau a awgrymwyd gan Heddlu De Cymru.

PENDERFYNWYD: Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor yn DERBYN y cais.

6 : EITEMAU BRYN (OS OES RHAI)

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30 am